**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 26 Mai 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J W Jones | D W W Thomas | J A Hale |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |
| Nicola Reid | Prif Bartner Busnes Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

**1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-2022.**

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd D W W Thomas yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021-2022.

**(Bu'r Cynghorydd D W W Thomas yn llywyddu)**

**2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021.**

**Penderfynwyd** y dylid ethol y Cynghorydd J A Hale yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

**3 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**4 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 26 Ionawr fel cofnod cywir.

## 5 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 6 Honiad o Fwlio ac Aflonyddu.

Cyflwynodd Adrian Chard, Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol adroddiad i'r Pwyllgor ar honiad o fwlio ac aflonyddu. Darparwyd sylwadau ysgrifenedig yn yr adroddiad gan y Swyddogion dan sylw.

Cafodd y Pwyllgor sylwadau llafar gan y Swyddog dan sylw, gyda'i gynrychiolydd Undeb llafur, Chris Cooze, Unsain.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Dylid cyfeirio'r mater at Berson Annibynnol Dynodedig er mwyn gallu cynnal ymchwiliad i'r honiadau o fwlio ac aflonyddu a wnaed gan yr achwynydd;
2) Yn ystod cyfnod yr ymchwiliad, ni fyddai gwaharddiad ffurfiol yn digwydd yn amodol ar asesiad risg boddhaol i sicrhau bod buddiannau'r ddau barti'n cael eu diogelu.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.24 am

**Cadeirydd**